
- ☐ Ydych chi'n gwybod os yw eich cyfrif yn breifat neu'n gyhoeddus?
- ☐ Ydych chi'n gwybod sut i rannu gyda grŵp penodol o ddilynwyr?
- ☐ Ydych chi'n gwybod pwy sydd yn eich dilyn?
- ☐ Ydych chi'n gwybod sut i flocio rhywun?
- ☐ Ydych chi'n gwybod sut i adrodd cynnwys?
- ☐ Ydych chi'n gwybod sut i ddileu sylwadau?
- ☐ Ydych chi'n gwybod sut i ddileu eich cyfrif?




## Ydych chi'n gwybod sut i rannu gyda grŵp penodol o ddilynwyr?

Mae Instagram Direct yn gadael i chi yrru llun neu fideo i grŵp penodol o bobl. Ni fydd cynnwys yn ymddangos yn y Ffrwd, yn y chwiliad na ar eich proffil. Nid oes modd rhannu postiadau a yrrwyd gyda Instagram Direct i wefannau eraill fel Facebook neu Twitter trwy Instagram. Hefyd, nid oes modd tagio pobl na defnyddio hashnodau ym mhostiadau o'r fath yma.

I yrru lluniau/fideos gyda Instagram Direct:

Tynnwch lun/fideo newydd neu lwythwch un o'ch camera.

Ychwanegwch effaith, hidlydd a phennawd dewisol.

Tapiwch '**Direct**'. Byddwch yn gweld rhai nodweddion yn ymddangos mewn gwyrdd wrth ddefnyddio Instagram Direct.

Tapiwch enwau'r bobl rydych chi am yrru'r llun iddyn nhw (hyd at 15 o bobl).

Tapiwch **Gyrru**.

## Ydych chi'n gwybod sut i flocio rhywun?

Pan fyddwch chi'n blocio rhywun, nid oes modd iddynt weld eich proffil na'ch cynnwys.

I flocio neu ddadflocio rhywun:

1. Chwiliwch amdanynt ar eich rhestr dilynwyr, neu wrth chwilio am yr enw neu enw defnyddiwr, ac ewch i'r proffil.
2. Tapiwch ar yr enw defnyddiwr i agor y proffil ac yna tapio (IOS) ac (Android).
3. Tapiwch yr opsiwn i **Flocio Defnyddiwr**.

I ddadflocio rhywun, dilynwch y camau uchod ac yna tapiwch i **Ddadflocio Defnyddiwr**.

## Ydych chi'n gwybod sut i ddileu sylwadau?

Gallwch ddileu eich sylwadau, gan gynnwys penawdau lluniau neu fideo, yn ogystal â sylwadau mae pobl eraill wedi gadael ar eich postiadau.

I ddileu sylw neu bennawd:

1. Tapiwch ar yr eicon Sylwadau o dan y llun
2. Sweipiwch i'r chwith dros y sylw neu bennawd i'w ddileu
3. Tapiwch ac yna dewiswch **Dileu** neu **Ddileu ac Adrodd Camdriniaeth**

1. Tapiwch o dan y llun
2. Tapiwch y sylw neu bennawd i'w ddileu
3. Dewiswch **Dileu Sylw** neu **Ddileu Sylw ac Adrodd**

## Ydych chi'n gwybod sut i ddileu eich cyfrif?

Wrth ddileu eich cyfrif, bydd eich proffil, lluniau, fideo, sylwadau, hoffiadau a dilynwyr yn cael eu dileu yn barhaol.

I ddileu eich cyfrif:

1. Logiwch mewn i Instagram.com o gyfrifiadur
2. Cliciwch eich enw defnyddiwr ar y dde ar frig y dudalen ac yna dewiswch **Golygu Proffil**
3. Cliciwch '**Hoffwn ddileu fy nghyfrif**' ar y dde ar waelod y dudalen.

Cofiwch nad oes modd ail-actifadu eich cyfrif, ac nid oes modd cofrestru gyda'r un enw defnyddiwr eto ar ôl dileu'r cyfrif. Os nad ydych am ddileu eich cyfrif ond yn hytrach eisiau newid pwy sy'n gallu ei weld, gallwch osod eich cyfrif i breifat neu flocio pobl.

## Ydych chi'n gwybod sut i adrodd am gynnwys?

Os nad yw rhywbeth yn cydymffurfio i Ganllawiau Cymunedol Instagram (ee: noethni neu hunan-niwed), gallwch adrodd am y llun neu fideo yn syth o'r ap Instagram, neu pan fyddwch yn ei weld ar Instagram.com:


1. Tapiwch ••• (iPhone a Ffôn Windows) neu ⋮ (Android) o dan y post
2. Tapiwch Adrodd Amhriodol
3. Dewiswch pam rydych chi'n adrodd y post

I adrodd rhywun sy'n eich dynwared neu'n dynwared rhywun rydych chi'n ei adnabod, gallwch wneud hynny yn syth o'r ap Instagram.

1. Ewch i broffil y person wrth chwilio amdanynt ar eich rhestr dilynwyr neu chwilio am yr enw neu enw defnyddiwr.
2. Tapiwch yr enw defnyddiwr i agor y proffil ac yna tapiwch ↗ (iOS) ac ⋮ (Android).
3. Tapiwch Adrodd Amhriodol
4. Dewiswch "Dwi'n credu bod y cyfrif yma'n torri canllawiau cymuned Instagram" i adrodd y cyfrif.


## Ydych chi'n gwybod pwy sy'n eich dilyn?

Os oes gennych chi gyfrif cyhoeddus, gall unrhyw un eich dilyn a gweld eich postiadau. Os oes gennych chi gyfrif preifat, mae'n rhaid i chi ganiatáu pob cais i ddilyn a dim ond y rhai rydych chi wedi'i gytuno sy'n gweld eich lluniau neu fideos. Mae'n peth da i edrych trwy eich dilynwyr a thacluso ychydig arnynt yn gyson. I atal rhywun rhag eich dilyn mae modd ei flocio, fel y disgrifir ar y dudalen nesaf.




## Ydych chi'n gwybod os yw eich cyfrif yn breifat neu'n gyhoeddus?

Mae gan Instagram osodiad preifatrwydd syml: rydych chi'n un ai'n rhannu eich postiadau gyda phawb (cyfrif cyhoeddus) neu dim ond yn rhannu gyda'r bobl rydych chi wedi caniatáu i'ch dilyn (cyfrif preifat). Rydym yn annog pobl i feddwl cyn rhannu, os yw'n gyfrif preifat ai beidio.




### Adnoddau i helpu

Canolfan Gymorth Instagram
https://help.instagram.com/

Canolfan Rhyngrwyd Ddiogelach Y DU
www.saferinternet.org.uk
enquiries@saferinternet.org.uk
0344 800 2382

# Instagram

Rhestr Wirio Preifatrwydd a Diogelwch